



Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/6627/16

At:

Arweinwyr Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref yng Nghymru

Anfonir copi at:

Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

19 Hydref 2016

Rwy'n cyhoeddi heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro 2017-18 ar gyfer cyngorau sir a chyngorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Drwy'r cyhoeddiad hwn, rwy'n cynnig pennu bod cyllid refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2017-18 yn £4.107 biliwn. Mae'r cyllid dros dro hwn a gyhoeddwyd heddiw, ar ôl gwneud addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r setliad, yn cynrychioli cynnydd o £3.8 miliwn o'i gymharu â 2016-17. Mae hwn yn setliad da ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a dyma'r cynnydd cyntaf ers 2013-14.

Rwy'n darparu £25 miliwn arall drwy'r setliad hwn i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol lleol cadarn i lwyddiant hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac i gydnabod y pwysau cynyddol y mae'r gwasanaeth hwnnw yn ei wynebu. Mae'r setliad hefyd yn cynnwys £25 miliwn arall o ganlyniad i'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Yn ogystal, rydym yn darparu £1 miliwn ar gyfer cludiant ysgolion a £3 miliwn ar gyfer trefniadau parcio yng nghanol trefi.

Yn unol ag un o'n hymrwymadau yn *Symud Cymru Ymlaen*, rwyf wedi darparu £2.3 miliwn o gyllid i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 0.5% o'i gymharu â'i ddyraniad a'i ychwanegiad cyllid ar gyfer 2016-17.

Mae'r setliad hefyd yn darparu cyllid tuag at ymrwymadau eraill yn *Symud Cymru Ymlaen*. Mae'n cynnwys £4.5 miliwn i gyllido'r ymrwymiad i gynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol sy'n codi tâl am ofal preswyl, o £24,000 i £30,000. Dyma'r cam cyntaf i gyflawni ein hymrwymiad i gael terfyn o £50,000. Mae hefyd yn darparu £0.3 miliwn i gyllido'r ymrwymiad i ddiystyru'n llwyr y Pensiwn Anabledd Rhyfel wrth gynnal asesiadau ariannol ar gyfer codi tâl am ofal cymdeithasol.

£442 miliwn yw cyfanswm y cyllid cyfalaf ar gyfer 2017-18. Fel rhan o hwn, mae'r cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer 2017-18 wedi cael ei gydgrynhoi yn un ffrwd gyllido, sy'n parhau ar yr un lefel, sef £143 miliwn.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y setliad dros dro yn ôl awdurdod lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys y dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer pob awdurdod unigol. Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig sydd wedi'u hailddosbarthu.

Mae'r setliad dros dro yn tynnu ar ffigurau'r sylfaen drethu ar gyfer 2016-17. Bydd gwybodaeth wedi'i diweddarau ar gael ar gyfer y setliad terfynol yn seiliedig ar ddatganiadau CT1 awdurdodau lleol ar gyfer 2017-18.

Rwyf hefyd yn cyhoeddi ar ein gwefan yr wybodaeth sydd i'w chael am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2017-18. Mae'r wybodaeth hon yn fwy manwl nag a gynigiwyd cyn hyn ar gyfer y setliad dros dro a bydd yn cael ei diweddarau ar gyfer y setliad terfynol.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn nodi lansio cyfnod ymgynghori ffurfiol 6 wythnos o hyd ar y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2017-18. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Mercher, 30 Tachwedd 2016** fan bellaf. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Simon Edwards

Y Gangen Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Neu drwy e-bost: LocalGovernmentSettlement@Wales.gsi.gov.uk.

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwahodd sylwadau a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, i gael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.

Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff awdurdodau lleol eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2017-18.

Mae'r setliad dros dro hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau ar gyfer 2017-18. Byddwn yn argymhell yn gryf y dylech ystyried sut y bydd orau ichi ymgysylltu â'ch cymunedau lleol i lunio eich cynigion a gwneud eich penderfyniadau cyllidebol.

In gywir

Mark Drakeford

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

